



# LLAWLYFR RHIENI

# YSGOL GYNRADD LLANGYBI



**YSGOL LLANGYBI**  
[ysgolllangybi.org](http://ysgolllangybi.org)





# Dysgu efo'n gilydd

Plant yn gyntaf.....

Children first.....

**YSGOL GYNRADD LLANGYBI,  
LLANGYBI,  
PWLLHELI,  
LL53 6DQ  
GWYNEDD.**

**FFÔN: (01766) 810564**

**RHIF: AALI : 661 2066**

**PENNAETH  
HEADTEACHER**

Mrs. Elin Owen

**CADEIRYDD Y LLYWODRAETHWYR  
CHAIRMAN OF THE GOVERNORS**

Mr Eifion Jones

**DISGRIFIAD O'R YSGOL/DESCRIPTION OF THE SCHOOL**

Ysgol Gynradd Sirol (Babanod a lau) yw'r ysgol hon. Mae'n ysgol ddyddiol ddwyieithog, gydaddysgol.

This school is a County Primary School (Infants and Juniors). It is a day, bilingual, co-educational school.

**ORIAU DYSGU/TEACHING HOURS**

Babanod/Infants	23.5	yr wythnos/a week
lau/Juniors	23.5	yr wythnos/a week

Sesiwn Meithrin/Nursery Session	09:00 - 11:00
Sesiwn Bore/Morning Session	09:00 - 12:00
Sesiwn y Prynawn/Afternoon Session	01:00 - 03.30

**CATEGORI IAITH / LANGUAGE CATEGORY**

Mae Ysgol Llangybi yn Ysgol Cyfrwng Cymraeg.

Llangybi School is classed as a Welsh Medium School.

## POLISI DERBYN

Gwasanaethir ardaloedd Llangybi, Llanarmon, Pencaenwydd, Sardis a Llethrau Cennin gan Ysgol Llangybi.

Derbynnir plant i'r sesiwn feithrin ym mis Medi, yn dilyn eu pen-blwydd yn dair oed.

Derbynnir plant yn llawn amser i'r ysgol ym mis Medi yn dilyn eu pen-blwydd yn bedair oed.

Dylai rhieni sy'n dymuno trosglwyddo eu plentyn o ysgol gynradd arall (a heb fod yn newid cyfeiriad) lenwi ffurflen dewis rhieni gan nodi rhesymau am y cais, a'i gyflwyno i'r Awdurdod Addysg, ar ôl ymgynghori gyda'r Pennaeth.


## ADMISSION POLICY

The catchment area for Ysgol Llangybi covers Llangybi, Llanarmon, Pencaenwydd, Sardis and Llethrau Cennin.

Nursery children are admitted to school in the September following their third birthday.

Children are admitted to school full time in the September following their fourth birthday.

Parents who wish to transfer their child from another primary school (without changing their address) should complete a parental choice form noting the reasons for the application and forward it to the Education Authority after discussion with the headteacher.



## **CORFF LLYWODRAETHOL YR YSGOL SCHOOL GOVERNORS**

**Pennaeth/Headteacher**

Mrs. Elin Owen

**Cadeirydd/Chairman**

Mr Eifion Jones

**Clerc/Clerk**

Mrs Megan Jones

**Cynrychiolwyr yr Awdurdod/  
Authority Representatives**

Cyng . Aled Evans

**Cynrychiolwyr y Rhieni/  
Parents' Representative**

Mrs. Sioned Williams  
Ms Mari Lewis  
Mrs Bethan Lewis

**Aelodau Cyfetholedig/Co-opted Members**

Miss Arianwen James  
Mr.Eifion Jones

**Cynrychiolydd Cyngor Cymuned/  
Community Council Representative**

Mr. Mark Barlow

**Cynrychiolydd Staff/  
Staff Representative**

Mrs Gwenan Tudor

## **STAFF YR YSGOL/SCHOOL STAFF**

### **PENNAETH/HEADTEACHER**

Mrs. Elin Owen Addysgu Blynyddoedd/Years 4 5, 6 yn nosbarth Aelhaearn

### **DIRPRWY/DEPUTY - ATHRAWES BABANOD/ INFANTS TEACHER**

Mrs. Gwenan Tudor Addysgu Blynyddoedd/Years Meithrin/Nursery, 0, 1,2,3 yn nosbarth Cybi

### **GWEINYDDDES FEITHRIN/NURSERY ASSISTANT**

Mrs Tania Buckley Jones  
Mrs Sharon Roberts

### **GOFALWRAIG/CARETAKER**

Mrs.Tania Jones / Mrs Sharon Roberts

### **COGYDDDES/COOK**

Mrs Nicola Williams

### **GORUCHWYLLWYR CINIO/DINNER SUPERVISORS**

Mrs Joyce povey  
Mrs.Ann Lewis

## Y CWRICWLWM

Dilynir Cwricwlwm Cenedlaethol y Cyfnod Sylfaen a CA2 yn Ysgol Llanybi. Mae yn ddyletswydd aroam i gyd fel staff:

- a) alluogi pob plentyn ddatblygu i'w lawn potensial
- b) gynnig ystod eang o brofiadau cyfoethog
- c) sicrhau bod pob plentyn yn cael ei gyflwyno i'r etifeddiaeth Gymreig
- d) rhoi cyfle i bob plentyn ddatblygu fel aelod llawn o gymdeithas wâr

## AMCANION CYFFREDINOL

- . Meithrin meddyliau bywiog ac ymchwilgar, bod yn hyderus i ymgymryd â sialensau newydd ac ymroi i dasgau.
- . Ehangu eu hymwybyddiaeth a'u cyfrifoldeb i'r gymdeithas maent yn byw ynddi er mwyn i'w dealltwriaeth ddyfnhau drwy barchu anghenion, safbwyntiau a galluoedd pobl eraill.
- Meithrin y synnwyr o ryfeddod a datblygu eu cywreinrwydd a'u pleser o ddarganfod pethau newydd.
- Meithrin gwerthoedd moesol personol, parch at werthoedd crefyddol a goddefgarwch at hiliau a chrefyddau eraill a ffyrdd eraill o fyw.
- Datblygu eu hymwybyddiaeth, gwybodaeth a'u gwerthfawrogiad o'u hamgylchedd i ddeall y byd maent yn byw ynddo a chyd-ddibyniaeth unigolion, grwpiau a chenhedloedd.
- Datblygu ymwybyddiaeth a gwybodaeth o'r byd modern, ei dechnoleg a'i werthoedd.
- Defnyddio iaith a rhif yn effeithiol.
- Datblygu gallu'r plentyn i ddadansoddi tystiolaeth ac i feddwl ymlaen beth fydd goblygiadau eu gweithredoedd.
- Datblygu eu gallu i ofyn cwestiynau ac i drafod problemau a chanfod atebion mewn ffordd drylwyr a pharchus.
- Gwerthfawrogi cyflawniadau a dyheadau dynol.

Cedwir cynlluniau gwaith manwl ym mhob pwnc yn yr ysgol ac mae croeso i rieni wneud cais i'w gweld, os dymunent.

## THE CURRICULUM

The National Curriculum is studied in Ysgol Llanybi in the Foundation Phase and K.S 2. It is our responsibility to:

- a) enable each child to develop his/her full potential
- b) Provide enriching experiences
- c) ensure that each child is introduced to the Welsh heritage
- d) give an opportunity for each child to develop as a good citizen in society.

## GENERAL OBJECTIVES

- To develop oral, literary and numerical skills in the context of inspiring the child's enthusiasm, imagination and interest.
- To increase the child's knowledge and to develop his powers of reasoning in order to assist him to adapt to a rapidly changing world which has more sophisticated processes and techniques, in particular in relation to information technology.
- To create in each child the desire to seek further knowledge and experience during his life and to develop his powers of mind, his moral and spiritual awareness.
- To assist the child to live and work with others and to develop attitudes which enable him/her to become a responsible member of the community.
- To develop sensitivity, aesthetic appreciation and leisure skills in the child.
- To provide particular attention for each child with special needs, e.g. for the exceptionally able and for those with various disadvantages.
- To present ideas and concepts by employing lively and dynamic methods which will motivate pupils' response.

Detailed work plans in each subject are kept in the school and parents are welcome to see them, if they so wish.



## PATRWM GWAITH

Ceisir sicrhau bod yr addysg a ddarperir yn hybu datblygiad moesol, diwylliannol, meddyliol a chorfforol pob disgybl a bod natur y cwricwlwm cyflawn yn wahaniaethol, eang a chytbwys. I ymateb i'r gofynion hyn, bydd trefniadaeth y dosbarth yn hyblyg; weithiau darperir gwaith ar sail oedran plant, dro arall bydd plant o ystod oedran sy'n rhychwantu mwy na blwyddyn ysgol yn cydweithio ar yr un dasg. Dysgir y plant fel uned dosbarth fydd dan ofal un athro/athrawes sefydlog.

Addysgir holl bynciau craidd a sylfaen y Cwricwlwm Cenedlaethol. Nodir cyfraniad y meysydd hyn mewn dull systematig yng nghofnodion yr athro/athrawes. Er mwyn sicrhau nag eithrir elfennau hanfodol o'r cwricwlwm cyflwynir y profiadau a'r gweithgareddau i blant yn draws-ddisgyblaethol drwy ddilyn themâu penodol.

Datblygir medrau llythrennedd, rhifedd a Chymhwysedd digidol y dysgwyr. Mae medrau meddwl a meddylfryd o dwf yn cael ei ddatblygu.

## WORK PATTERN

The aim is to try to ensure that the education provided enhances the spiritual, moral, cultural, mental and physical development of each pupil and that the nature of the complete curriculum is varied, expansive and balanced. In order to fulfil these needs the organisation will be flexible; work will sometimes be given according to the child's age, at other times children of different age groups spanning more than one school year will work together on one task. The children will be taught as a class unit in the care of one designated teacher.

In accordance with the Curriculum Council for Wales' proposal, the curriculum is planned on the basis of eight aspects of learning including the core and foundation subjects. The contribution of these subjects is noted systematically in the teacher's notes. By giving children tasks and experiences based on specific themes or on an inter-disciplinary basis, the school will seek to ensure that other essential elements of the Curriculum are not forgotten.

Learners numeracy, literacy and digital skills are developed in Ysgol Llangybi. Thinking skills and Mindset growth is developed.

Addysgir y Cwricwlwm Cenedlaethol drwy gyfrwng themâu yn Ysgol Llangybi.

Mae plant 3-7oed yn y Cyfnod Sylfaen

Mae plant 7-11oed yng Nghyfnod Allweddol 2. Addysgir y plant mewn:

Cymraeg	}	Pynciau Craidd
Saesneg	}	
Mathemateg	}	
Gwyddoniaeth	}	

Hanes	}	Pynciau sylfaen
Daearyddiaeth	}	
Addysg Grefyddol	}	
Cerddoriaeth	}	
Celf, Dylunio a Thechnoleg	}	
Addysg Gorfforol	}	
Technoleg Gwybodaeth	}	

Mae medrau mewn rhifedd , llythrennedd a Chymhwysedd digidol yn cael eu datblygu .  
Bydd Cwricwlwm i Gymru yn cael ei gyflwyno yn y blynyddoedd nesaf.

The National Curriculum is taught thematically in Ysgol Llangybi.

The 5-7 years old children are in FoundationPhase

7-11 years old children old are in Key Stage 2. The children are taught:

Welsh	}	Core Subjects
English	}	
Mathematics	}	
Science	}	

History	}	Non core subjects
Geography	}	
Religious Education	}	
Music	}	
Craft, Design and Technology	}	
Physical Education	}	
Information Technology.	}	

Numeracy, literacy, and digital skills are developed.

The new Curriculum for wales will be introduced in the next years.



## **ADDYSG RHYW**

Mae disgyblion yn cael gwersi addysg teulu a pherthnasoedd o'r cyfnod sylfaen hyd at ddiwedd cyfnod allweddol 2, fel rhan o'r cwricwlwm addysg bersonol a chymdeithasol. Atgyfnerthir yr addysgu gan adnoddau a ddarperir gan Gynllun Ysgolion Iach.

## **SEX EDUCATION**

Pupils receive family and relationship education from the Foundation Phase to the end of Key Stage 2, as part of the National Curriculum of Personal and Social Education. The teaching is supported by resources provided by The Healthy Schools Plan.

## **ADDYSG GREFYDDOL**

Er nad yw'r ysgol hon yn dal cysylltiad uniongyrchol a ffurfiol ag unrhyw enwad crefyddol, y ffydd Gristnogol fydd sail cwrs Addysg Grefyddol yr ysgol.

Gellir gwneud trefniadau ar wahân ar gyfer plant nad yw eu rhieni am iddynt fynychu'r gwasanaethau crefyddol neu astudiaethau cyffelyb.

Edrychwn ar Addysg Grefyddol fel arf i greu dylanwad positif yn natblygiad pob plentyn a thrwy hynny ei gynorthwyo i ddatblygu ei werthoedd moesol a chreu ymwybyddiaeth o'i gyfrifoldebau cymdeithasol.

Cynhelir cydaddoliad dyddiol. Cyfrennir yn rheolaidd gan y plant eu hunain a siaradwyr allanol.

## **RELIGIOUS EDUCATION**

Although this school is not directly affiliated to any religious order, it is the Christian faith that is the basis to the school's religious education programme.

Religious Education is looked upon as a tool to create positive influence in each child's development and to aid the child with his/her moral values and to create awareness of his/her social responsibilities.

Other arrangements can be made for children that their parents do not wish them to attend the religious service.

Pupils and people from the community take part in the services.

## **GWAITH CARTREF**

Rhoddir gwaith cartref i'r plant yn wythnosol. Gobeithir y bydd y cartref yn cydweithredu i hybu gwaith y plant.

Ambell dro bydd gweithgarwch arbennig yn gofyn am wybodaeth gan rieni a pherthnasau a chymdogion neu'n gofyn am waith holi a darganfod ar ran y plant. Sylweddolir mai cyfrifoldeb y cartref yw'r plentyn yn ystod yr oriau hyn ac mai yng ngoleuni'r cyfrifoldeb hwnnw y bydd rhieni yn cytuno neu'n anghytuno i gydweithredu.

O dro i dro, gall athro/athrawes ofyn i blentyn wneud gwaith ychwanegol er mwyn gwneud cynnydd neu ganolbwyntio ar agwedd arbennig o'r gwaith. Bryd hynny, gobeithir cael cydweithrediad llwyr y cartref ac anogaeth i'r plentyn wneud y gwaith.

Bydd yr ysgol yn rhoi ystyriaeth i oedran, gallu ac anghenion y plentyn wrth osod gwaith cartref.

## **HOMEWORK**

The children are given homework on a weekly basis. It is hoped that the home will co-operate to encourage the child in his work.

From time to time, a particular activity requires information by parents, relations and neighbours or requires interviewing and research work by the child. It is appreciated that the child is the responsibility of the home during these hours and parents' willingness or unwillingness to co-operate will be understood in the light of this responsibility.

Occasionally, a particular teacher may ask a child to do additional work in order to make progress or to concentrate on a special aspect of work. At such times it is hoped that the full co-operation of the home will be forthcoming together with encouragement to the child to do the work.

## **ASESU**

Cedwir cofnod cyson o asesiadau athrawon ar waith y plant, yn ogystal â phroffil o'r gwaith.

Darperir adroddiad cynhwysfawr i rieni ar holl raglen waith y disgyblion yn flynyddol. Cynhelir dwy noson agored ar gyfer rhieni yn flynyddol.

Ceir asesiad athro yn niwedd y Cyfnod Sylfaen a Chyfnod allweddol 2 (blwyddyn 2 a 6). Bydd adroddiad llawn o lefel o gyrhaeddiad y disgyblion yn y gwahanol bynciau a'r profion cenedlaethol ar gael i rhieni erbyn diwedd y flwyddyn addysgol.

## **ASSESSMENT**

A constant record of teacher assessment on the pupils' work is kept, as well as a profile containing examples of work.

A detailed annual report is sent to parents at the end of the school year, covering all curricular areas. Two open evenings are held for parents annually.

Teacher assessment is provided at the end of Foundation Phase and Key Stage 2 (in years 2 and 6). A full report of attainment levels of each pupil in the National Curriculum subjects and the National numeracy and literacy tests is provided for parents at the end of each school year.

## TREFNIADAU DIOGELWCH / SECURITY ARRANGEMENTS

Mae gan yr ysgol strategaethau mewn lle ar gyfer diogelu disgyblion, staff a libart yr ysgol. Mae ymarfer tân yn cael ei gynnal yn dymhorol, a chynllun parhad gwasanaeth wedi ei lunio, ar gyfer argyfwng. Mae asesiadau risg wedi eu llunio ar gyfer amrywiaeth o weithgareddau a sefyllfaoedd. Mae'r Llywodraethwyr wedi mabwysiadu polisi lechyd a Diogelwch yr Awdurdod Addysg Lleol.

The school has procedures in place to ensure the security of pupils, staff and the school premises. A fire drill is held every term, and a continuation of service plan has been drawn out in the case of an emergency. Risk assessments have been made for a variety of activities and situations. The Governors have adopted the Health and Safety policy of the Local Education Authority.

## POLISI IAITH

### AMCANION CYFFREDINOL

Seilir polisi'r ysgol ar Bolisi Iaith yr Awdurdod Addysg.

Mae Awdurdod Addysg Gwynedd yn gweithredu polisi dwyieithog trwy holl ysgolion Gwynedd a, hefyd, yn datblygu polisi dwyieithog ar gyfer sefydliadau Addysg Bellach.

Yr amcan yw datblygu gallu disgyblion a myfyrwyr y sir i fod yn hyderus ddwyieithog er mwyn eu galluogi i fod yn aelodau cyflawn o'r gymdeithas ddwyieithog maent yn rhan ohoni.

Dylai holl sefydliadau addysg y sir adlewyrchu ac atgyfnerthu'r polisi iaith yn eu gweinyddiad, eu bywyd cymdeithasol a'u trefn fugeiliol yn ogystal ag yn eu darpariaeth academaidd.

## AMCANION PENODOL

### ADDYSG FEITHRIN

Sicrhau, trwy ddarpariaeth a threfniadaeth feithrin bwrpasol a sensitif, y rhoddir i bob plentyn y sylfaen gadarn yn y Gymraeg er mwyn ei alluogi i gyrraedd y nôd o ddwyieithrwydd

### BABANOD

Adeiladu ar y sylfeini a osodwyd i'r Gymraeg drwy addysg feithrin, cadarnhau a datblygu mamiaith y plentyn o ddysgwyr Cymraeg ac ymestyn gafael y plentyn o gartref Cymraeg ar y Saesneg.

Yn ystod y blynyddoedd hyn Cymraeg fydd prif gyfrwng y dysgu ar draws y cwricwlwm yn Ysgol Gynradd Llanybi.

Cyflwynir y Saesneg i blant o gartrefi Cymraeg pan fydd yr athro/athrawes yn gweld fod y plentyn yn barod ac wedi derbyn sylfaen ddigonol yn yr iaith gyntaf.

## IAU

Cadarnhau a datblygu Cymraeg a Saesneg pob plentyn yn eu holl agweddau goddefol a gweithredol, er mwyn sicrhau ei fod yn gallu siarad, darllen ac ysgrifennu'n rhwydd ac yn hyderus yn y ddwy iaith pan fo'n trosglwyddo i'r ysgol uwchradd. Gwneir darpariaeth arbennig ar gyfer hwyr-ddyfodiaid iau i fynyachu y ganolfan iaith sydd wedi ei lleoli ar safle'r ysgol.

Bydd y Pennaeth, mewn ymgynghoriad â'r staff, yn paratoi ac adolygu'n rheolaidd ddogfen sy'n datgan sut mae'r ysgol yn bwriadu gweithredu polisi iaith yr Awdurdod Addysg a amlinellir uchod.

## **LANGUAGE POLICY**

### **GENERAL AIMS**

Gwynedd Education Authority operates a bilingual policy in all its schools and is also developing a bilingual policy for the Further Education establishments within the county.

The aim is to develop the ability of pupils and students within the county to be confidently bilingual in order that they can be full members of the bilingual society of which they are a part.

All educational establishments within the county should reflect and reinforce the language policy in their administration, their social life and pastoral arrangements as well as their academic provision.

### **SPECIAL AIMS**

#### **NURSERY EDUCATION**

To ensure, through sensitively structured provision and organisation, that each child receives a firm foundation in Welsh in order to enable him/her in due course to attain the aim of full bilingualism.

#### **INFANTS**

To build on the Welsh language foundation laid through nursery education, to consolidate and develop the mother tongue of children who are Welsh learners and extend the children from Welsh speaking homes' competence in English.

#### **JUNIOR**

To consolidate and develop each child's Welsh and English capabilities in all aspects, both creative and receptive, so as to ensure that he/she can speak, read and write fluently and confidently in both languages on transferring to the secondary school. Special provision will be made for junior latecomers to attend the Welsh Language Centre that is situated in the school.

The Headteacher, in consultation with her staff, will prepare and regularly review a document, which states how the school intends to operate the Education Authority's language policy as outlined above.

## CODI TÂL AM WEITHGAREDDAU

Yn unol â gofynion Deddf Addysg 1988, na ellir codi tâl am y canlynol:

- mynediad i'r ysgol
- yr addysg a roddir yn ystod oriau'r ysgol defnyddiau/offer ar gyfer gwersi yn ystod oriau ysgol
- gweithgareddau a gynhelir yn ystod oriau ysgol.

Ond mae gan yr ysgol haw i ofyn am gyfraniad tuag at :

- ymweliadau addysgol
- gwersi cerdd unigol yn ôl amodau'r Ddeddf (Adran 39)
- gweithgareddau a gynhelir tu allan i oriau'r ysgol yn ôl amodau'r Ddeddf
- achosion lle achosir difrod i unrhyw ran o adeiladau'r ysgol yn dilyn ymddygiad disgyblion

Mae hawl gan y pennaeth a'r corff llywodraethol i ddileu gweithgaredd a drefnwyd os yw'n ymddangos y byddai cyfraniadau isel yn golygu colled sylweddol.

## CHARGING FOR EDUCATIONAL ACTIVITIES

The governing body, in accordance with the 1988 Education Act, deems that the following activities cannot be charged for:

- entrance into school
- the education that is received during school hours
- materials/equipment for lessons during school hours
- activities that are held during school hours.

The school can ask for a voluntary contribution towards :

- educational visits
- individual instrumental lessons
- activities outside school hours
- cases where vandalism to any part of the school building is caused by a pupil

The headteacher and the governing body have the right to cancel arranged activities if it is deemed that insufficient funding deems a severe loss to the school.

## **TREFNIADAU AR GYFER DISGYBLION GYDAG ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL**

Mae Ysgol Gynradd Llangybi wedi mabwysiadu polisi ysgol gyfan i hyrwyddo mynediad llawn i gwricwlwm eang a chytbwys ar gyfer pob disgybl.

Mae trefn ysgol gyfan o adnabod plant anghenion dysgu ychwanegol, anhawsterau dysgu neu blentyn galluog iawn a darparu cynhaliaeth ychwanegol ar eu cyfer.

Cefnogir disgyblion gyda anghenion addysgol ychwanegol gan athrawes arbenigol gwybyddiaeth a dysgu a seicolegydd addysgol.

Mrs Gwenan Tudor yw cyd lynydd ADY yr ysgol.

Mr Mark Barlow yw'r llywodraethwr dydodedig dros ADY.

## **ARRANGEMENTS FOR PUPILS WITH ADDITIONAL EDUCATIONAL NEEDS**

Ysgol Llangybi has adopted a policy for pupils with special educational needs, which outline the intention to offer the whole of the National Curriculum for each pupil.

Pupils with additional learning needs or gifted children are recognised by the school and provisions made for extra support.

Pupils with additional educational needs are supported by a specialised teacher and the educational psychologist.

Mrs Gwenan Tudor is the AEN coordinator in the school.

Mr Mark Barlow is the School Governor for AEN

## **PLANT MEWN GOFAL / CHILDREN IN CARE**

Mae'r ysgol wedi mabwysiadu polisi ar gyfer darparu addysg, cefnogi a hyrwyddo cyflawniad plant mewn gofal. Mrs Elin Owen yw yr aelod o staff sydd yn gyfrifol am lês plant mewn gofal.

The school has adopted a policy to provide education, support, and guidance in promoting the progress of children in care. Mrs Elin Owen is the member of staff responsible for the well being of children in care.

## **CYFLE CYFARTAL A CHYNHWYSIAD**

Mabwysiadwyd Polisi Cyfle Cyfartal gan y Corff Llywodraethol.

Amcan yr ysgol yw:

- sicrhau cyfleoedd i'r holl ddisgyblion o bob cefndir cymdeithasol, cyfleoedd cyfartal i fechgyn a merched, plant galluog iawn a phlant llai galluog
- meithrin agweddau cadarnhaol mewn perthynas â hil, crefydd, rhyw a rhywioldeb
- osgoi cyflyru , stereoteipio a rhagfarn

## **EQUAL OPPORTUNITIES AND INCLUSION**

The school aims to:

- ensure opportunities for all our pupils from all social background, equal opportunities for boys and girls, for extremely able and less children
- promote positive attitudes to race, religion , sex and sexuality
- avoid conditioning, stereotyping, and prejudice



## **DERBYN A DARPARU AR GYFER DISGYBLION AG ANABLEDDAU**

Hyrwyddir cyfleoedd cyfartal ac agweddau positif tuag at ddisgyblion ag anableddau yn Ysgol Llangybi, ac ni oddefir unrhyw wahaniaethu nac aflonyddu ar sail anabledd. Caiff disgyblion ag anableddau eu hannog i gyfranogi yn llawn ym mywyd yr ysgol, ac yn unol â pholisi cynhwysiad, gael mynediad llawn i'r cwricwlwm Cyfnod Sylfaen a CA2. Mae'r adeilad wedi ei addasu ar gyfer mynediad, a cheir toiledau i'r anabl. Llunnir cynllun unigol ar gyfer pob disgybl ag anableddau pan dderbynnir y plentyn i'r ysgol. Mae gan yr ysgol gynllun hygyrchedd.

## **ADMISSION AND PROVISION FOR PUPILS WITH DISABILITIES**

Ysgol Llangybi promotes equal opportunities and positive attitudes towards pupils with disabilities, and any differentiation or harassment on the grounds of disability is not tolerated. Pupils with disabilities are included in every aspect of school life, and partake in the national curriculum Foundation Phase and KS2. The building has been adapted for admission and has toilets for the disabled. An individual plan of action is drawn out when the child is admitted to the school. The school has a policy on accessibility.

## **GOFAL BUGEILIOL**

Rhoddir pob plentyn yng ngofal athro/athrawes arbennig, ond ceisia'r staff cyfan ymorol am lês yr holl ddisgyblion. Mae'r ysgol hon yn annog plant fod yn hunan ddisgybledig, yn gyfrifol ac i ymddwyn efo parchu tuag at eraill.

Mae gofal bugeiliol gan bob athro/athrawes i:

- gofrestru eu grwpiau ddwywaith y dydd, yn y bore ac ar ddechrau'r prynhawn
- gofalu bod y plant yn cydymffurfio â rheolau prydlondeb a phresenoldeb yr ysgol
- cyflwyno pob gwybodaeth angenrheidiol a llythyrau i'w plant fynd adref
- paratoi adroddiadau i'r rhieni ar ddiwedd blwyddyn ysgol ar ddatblygiad eu plant.

## **PASTORAL CARE**

Every child is placed in the care of a particular teacher, but the whole staff take care of pupils' well being. This school urges children to be self-disciplined and to respect others

Pastoral care is the responsibility of all teachers to:

- register their groups twice daily, in the morning and the afternoon
- check the punctuality and attendance of the pupils
- present the pupils with all necessary information by sending letters home to the parents
- prepare reports for parents at the end of the school year on the progress of their children.

## DISGYBLAETH A CHYNNAL YMDDYGIAD DA

Mae polisi Awdurdod Addysg Gwynedd ar ddisgyblaeth mewn ysgolion ynghyd â pholisi'r ysgol yn rheoli'r ffordd y disgyblir plant yn yr ysgol hon.

Mae'r drefn ddisgyblaeth yn seiliedig ar bolisi lle mae pob athro/athrawes yn gyfrifol am ymddygiad dysgwyr . Gellir cyfeirio disgyblion at sylw'r Dirprwy neu'r Pennaeth os oes problem gyda ymddygiad. Mewn rhai achosion o gamymddwyn cedwir y plentyn i mewn fel cosb dros amser chwarae. Dro arall, byddwn yn rhoi gwybod i chi am unrhyw gamymddwyn ac yn gofyn i rieni ddod i mewn i drafod a datrys y broblem.

## YMDDYGIAD

Mae disgwyl i bob disgybl gyfrannu at greu cymdeithas wâr yn yr ysgol drwy:

- i fod yn feddylgar, caredig a boneddigaidd yn ei berthynas â disgyblion eraill, holl staff yr ysgol ac unrhyw ymwelydd
- peidio â gwneud difrod bwriadol nac ymyrryd ag eiddo pobl eraill, rhegi na defnyddio iaith anwedus nac yn anghwrtais wrth ateb yn ôl.
- gwneud pob ymdrech i gadw'r ysgol a'i hamgylchedd yn daclus, rhoi pob ysbwriel yn y biniau a pheidio ysgrifennu ar y waliau
- peidio â dod â phethau personol i'r ysgol fel teganau oni ofynnir amdanynt gan yr athro/athrawes ddosbarth.

## DISCIPLINE AND SUPPORTING GOOD BEHAVIOUR

Pupils in this school are disciplined in accordance with the policy of the Gwynedd Local Education Authority.

School discipline is based on the policy that all teachers are responsible for the conduct of pupils . Any problems can be referred to the Deputy Headteacher or the Headteacher. In some cases of misbehaviour, children are kept inside during playtime as a punishment. Sometimes parents are invited into the school to discuss a problem.

## BEHAVIOUR

Pupils are expected to contribute towards a well-ordered school community by:

- displaying common sense, kindness and courtesy in their dealings with other pupils, all school staff and any visitors
- refraining from wilful damage, interference with other people's property, bad language, insolence and bad manners
- making every effort to keep the school buildings neat and tidy, depositing litter in the bins provided and respecting their surroundings.
- not to bring personal belongings to school like toys except when the class teacher asks for them.

## ABSENOLDEB

- Mae mynychu'r ysgol yn rheolaidd yn bwysig
- Mae'n ddyletswydd cyfreithiol ar rieni i anfon eu plant i'r ysgol yn rheolaidd. Mae rhieni sy'n methu â chyflawni'r dyletswyddau yma yn wynebu cael eu herlyn.
- Mae yn gyfrifoldeb ar rieni i sicrhau bod eu plant yn cyrraedd yr ysgol mewn pryd, yn daclus ac mewn cyflwr i ddysgu.
- Cyfrifoldeb y rhieni yw hysbysu'r ysgol am absenoldeb plentyn cyn gynted â phosibl ac i ddarparu unrhyw wybodaeth bellach, os bydd ei angen.
- Gall yr ysgol ofyn am gymorth Swyddogion Llês Addysg a hysbysu'r Awdurdod Addysg Lleol pan mae presenoldeb afreolaidd disgybl yn achosi pryder.
- Yr ysgol yn unig, yng nghyd-destun y gyfraith, a all gymeradwyo absenoldebau. Ni ellir cymeradwyo yr absenoldebau heb i ni gael gwybodaeth trwy lythyr neu alwad ffôn gennych chi. Mae absenoldebau yn cael eu gosod mewn dau gategori - wedi eu hawdurdodi a nas awdurdodir.

Mae'r canlynol yn enghreifftiau o **absenoldebau wedi eu hawdurdodi** :

- gwaeledd, apwyntiadau meddygol neu ddeintyddol
- mynychu gwyl grefyddol

Mae'r canlynol yn enghreifftiau o **absenoldebau nas awdurdodir**:

- siopa yn ystod oriau ysgol
- gwyliau estynedig yn ystod tymor ysgol.
- Mae'r cofrestr yn cael ei chau am 9.15 y bore ac am 1.15 yn y prynhawn.
- Dylai rhieni sy'n trefnu gwyliau tu allan i wyliau'r ysgol ystyried calendr yr ysgol a goblygiadau hyn i'r plentyn. Ceir ffurflen ganiatâd gwyliau oddi wrth y Pennaeth. Nid oes gennych hawl i gael dim mwy na deg diwrnod y flwyddyn.
- Os yw disgybl yn dymuno cael ei esgusodi o wersi ymarfer corff am resymau meddygol, rhaid iddo gael nodyn gan ei riant (am gyfnod byr dros-dro) neu dystysgrif feddygol (am gyfnod estynedig neu barhaol).

## GADAEI LIBART YR YSGOL

Ni all unrhyw ddisgybl fynd oddi ar dir yr ysgol yn ystod oriau ysgol oni chaiff ganiatâd swyddogol. Dylai rhieni wneud cais am ganiatâd o'r fath mewn ysgrifen neu alwad ffôn i'r Pennaeth.

## ABSENCE

- Attending school regularly is very important .
- It is a legal duty for parents to send their children to school regularly. Parents who are unable to fulfil this duty face prosecution.
- The parents' responsibility extends to ensure that their children arrive in school on time, dressed appropriately and ready to be educated.
- It is the responsibility of the parents to inform the school, as soon as possible, if their child is absent and to produce any further information that they might require.
- The school might ask for the assistance of the Education Welfare Officer and inform the Local Education Authority if a pupil's irregular attendance becomes a cause for concern.
- Only the school, in a legal context, can approve absenteeism. Absenteeism is divided into two categories - **approved and unapproved**.

The following are examples of **approved absenteeism**

- illness, medical or dental appointments,
- attending a religious festival

The following are examples of **unapproved absenteeism**

- shopping during school hours,
- domestic responsibilities,
- extended holidays during school term time.
- Pupils late for school must note that the register will be closed at 9.15 in the morning and at 1.15 in the afternoon.
- Parents who arrange holidays outside the official school holidays should consult the school calendar and its implications to the child. A holiday consent is available from the headteacher. Annual leave is 10 days.
- Pupils wishing to be excused from P.E. on medical ground must provide a parent's note (for a temporary period) or a medical certificate (for an extended or permanent period).

## LEAVING THE SCHOOL GROUNDS

No pupil may leave the school premises during school hours unless official permission has been granted. Requests for such permission must be made in writing or a phone call by parents to the headteacher.

## **MEDDYGOL**

Disgwylir i rieni hysbysu'r ysgol o unrhyw gyflwr meddygol neu glinigol a allai effeithio ar unrhyw plentyn.

Mae aelod o staff ar gael i roi meddyginiaeth i'ch plentyn ond, rhaid llenwi'r ffurflen caniatad yn gyntaf. Llunnir cynllun iechyd unigol ar y cyd gyda rhieni, os yw disgybl angen hynny.

## **MEDICAL**

Parents are expected to inform the school of any medical or clinical condition, which might affect a pupil's progress.

A member of staff is available to give medication to your child but a consent form must be completed. A unique health care plan will be drawn up, with parents' co-operation, if a pupil needs it.

## **BYSIAU YSGOL**

Disgwylir i'r plant i gyd ymddwyn yn briodol ar y bws ysgol. Gall disgyblion sy'n ymddwyn yn ddrwg gael eu gwahardd rhag defnyddio'r bws ysgol. Darperir cludiant am ddim i blant sydd yn byw 1.5 milltir neu ragor o'r ysgol, o fewn y dalgylch.

## **SCHOOL BUSES**

A high standard of behaviour is expected on the buses. Serious misdemeanours could result in the pupils concerned having to find alternative means of transport. Free transport is provided for children who live 1.5 miles or more from the school, within the catchment area.

## **CLWB BRECWAST**

Mae clwb brecwast ar gael i ddisgyblion o 8.15am ymlaen. Mae'r Awdurdod Addysg yn codi tâl am warchod hyd at 8.35am Ar ôl 8.35am ni chodir tâl am y brecwast, ond mae'r rhaid cofrestru ymlaen llaw. ( Ffurflen ar gael yn yr ysgol)

## **BREAKFAST CLUB**

A breakfast club runs from 8.15am for pupils. The education Authority charges a fee for childcare until 8.35am. After this time the breakfast is free . Registration is required, and forms available in school.

## **CINIO**

Caiff cinio ei ddarparu am £2.50 y dydd. Gellir talu ar lein, efo arian neu sic. Mae croeso i ddisgyblion ddod a chinio eu hunain

## **LUNCH**

Lunch is provided for £2.50 a day. You can pay on line , money or cheque. Pupils are welcome to bring in their own lunch.

## GWISG YSGOL

Mae gan yr ysgol hon wisg ysgol swyddogol, ond nid oes gorfodaeth ar blant i'w gwisgo. Er hynny, teimlir bod gwisg ysgol yn arwain at feithrin balchder yn yr ysgol ac ymdeimlad o berthyn iddi.

Y wisg yw crys chwys piws gyda logo'r ysgol arno a gellir ei brynu yn yr ysgol am £9

## GWISG ADDYSG GORFFOROL

Byddwn yn gadael i chi wybod pa ddiwrnod mae eich plentyn yn cael gwersi addysg gorfforol. Ar gyfer hyn, bydd angen crys-T, trowsus byr a thracwisg (gaeaf yn unig) a phâr o bympiau du i'r neuadd. Gellir gwisgo hen drainers neu esgidiau pêl-droed i fynd ar y cae (plant iau yn unig). **Y newid** i'r wers sy'n bwysig fel bod gan y plentyn ddillad sych i newid iddynt ar ôl y wers ymarfer corff.

## OS GWELWCH YN DDA, GWNEWCH YN SIWR BOD ENW EICH PLENTYN AR BOB DILLEDYN.

## SCHOOL UNIFORM

This school has a uniform, although children are not compelled to wear it. However, we believe that a school uniform sustains pride in the school and a sense of belonging to it.

The uniform is a purple sweatshirt with the school logo, which can be bought at the school. It is on sale for £9 at school.

## PHYSIAL EDUCATION CLOTHING

You will be informed of the days that your child will be receiving his/her physical education lessons.

He/she will need a T-shirt, a pair of shorts, a tracksuit for the winter months (juniors only) and a pair of black pumps for the indoor lessons. Old trainers or football boots will be needed to go on to the school field (juniors only). It is virtually important for children to **change** for their physical education lessons in order for them to have dry clothing to change into after lessons.

**PLEASE ENSURE THAT EVERY ARTICLE OF CLOTHING HAS YOUR CHILD'S NAME MARKED CLEARLY ON IT! THANK YOU.**

## DIOGELWCH

- Mae amddiffyn plant a diogelwch bob dysgwr yn hynod o bwysig .
- Mae bob aelod o staff , gwirfoddolwyr a llywodraethwyr wedi cael achrediad DBS
- Dylai disgyblion barchu rheolau lechyd a Diogelwch yr ysgol bob amser.
- Mae rheolau tân yn amlwg ym mhob ystafell a cheir ymarferion tân rheolaidd.
- Cyfrifoldeb y plentyn yw unrhyw eiddo personol. Dylid marcio popeth (dillad, bagiau, pyrsiau) yn glir er mwyn gallu eu hadnabod.
- Mae'r giatiau yn cael eu cloi yn ystod oriau ysgol.
- Mae staff addysgol ac ategol yn goruchwylio amser egwyl ac amser cinio.
- Mae trefniadau diogelwch pendant yn weithredol yn ystod ymweliadau addysgol oddi ar y safle.
- Mae clo electroneg ar ddrws y brif fynedfa.
- Mae polisi arwyddo mewn ac allan yn weithredol.

## SAFETY

- Child protection and the safety of all learners is very important.
- All staff , volunteers and Governors have DBS checks.
- Pupils should respect the school's Health and Safety rules at all times.
- Fire drill rules are displayed in every classroom and regular fire drills are held.
- All private property is the responsibility of the pupils concerned. All items (clothing, satchels, purses) should be clearly marked for identification purposes.
- School gates are locked during school hours.
- Staff supervise the yard at playtimes and during the dinner hour.
- Strict safety arrangements are ensured during educational visits from the school.
- The door of the main entrance is electronically locked.
- A signing in and out policy is operated.

## GORUCHWYLIO PLANT

I sicrhau diogelwch y plant mae'r ysgol yn gweithredu trefniant goruchwylio yn ystod y cyfnodau yma:

Clwb brecwast	45 munud	(08.15 – 09:00)
cyn dechrau'r ysgol	10 munud	(08:50 - 09:00)
egwyl y bore	20 munud	(10:30 - 10:50)
awr ginio	60 munud	(12:00 - 01:00)
egwyl y pnawn	20 munud	(02:30 - 02:50)
diwedd y dydd	10 munud	(03:30 - 03:40)

(bws a chlirio'r ysgol).

## SUPERVISION OF CHILDREN

To maintain the children's safety the school keeps to these supervision arrangements:

Breakfast Club	45 minutes	(08:15 – 09:00)
before school starts	10 minutes	(08:50 - 09:00)
morning break	20 minutes	(10:30 - 10:50)
dinner hour	60 minutes	(12:00 - 01:00)
afternoon break	20 minutes	(02.30 - 02.50)
end of afternoon	10 minutes	(03:30 - 03:40)

(bus and clearing the school).

## YMWELD Â'R YSGOL / VISITING THE SCHOOL

Gellir ymweld â'r ysgol unrhyw bryd, ond os ydych yn dymuno cael gair gyda'r athrawon neu'r pennaeth ynglyn â rhywbeth sydd yn eich pryderu mae rhaid gwneud apwyntiad . Mae drws yr ysgol ar gau gyda system ddiogelwch yn ystod gwersi. Gellir canu'r gloch am sylw.

Parents can visit the school at all times, but if you wish to discuss a matter with the teachers or Headteacher an appointment is necessary. The main entrance door is locked for security during lessons. The bell can be rung for attention.

## GWEITHGAREDDAU YCHWANEGOL

Mae'r ysgol yn cynnig amrywiaeth o weithgareddau yn gysylltiedig â'r Urdd neu weithgareddau dalgylchol , sydd yn agored i holl ddisgyblion

Ni all yr ysgol dderbyn cyfrifoldeb am oruchwylio plant ar ddiwedd y gweithgareddau yma a gofynnir i rieni sicrhau eu bod yn gwneud trefniadau i hebrwng eu plant adref.

## ADDITIONAL ACTIVITIES

The school offers a variety of activities connected with the Urdd or other schools in the area, which are open to all pupils .

The school cannot accept responsibility for supervising children at the end of these activities and parents are asked to ensure that arrangements are made for children to be picked up.



## TREFN GWYNO

- Mae gan yr Awdurdod Addysg drefn i ystyried cwynion am y modd mae cyrff llywodraethu'r ysgolion a'r Awdurdod Addysg yn gweithredu mewn perthynas â chwricwlwm ysgol a materion eraill cysylltiedig.
- Mae'r drefn hon wedi ei hamlinellu mewn dogfen bwrpasol yn y Gymraeg a'r Saesneg sydd ar gael yn yr ysgol. Darperir copi, yn ôl y gofyn, i unrhyw riant sy'n dymuno gwneud cynwion
- Mae gan yr ysgol bolisi cwynion. Pwysleisir, fodd bynnag, y gellir ymdrin â llawer o gwynion yn gyflym ac effeithiol drwy ystyriaeth anffurfiol yn seiliedig ar drafodaethau gyda'r Pennaeth.
- Dyma'r cam rhesymol cyntaf a bydd y corff llywodraethu'n disgwyl bod y cam yma wedi ei gyflawni cyn cyflwyno'r gwyn yn ffurfiol mewn achosion eithriadol.
- Dylid cysylltu â'r ysgol i wneud apwyntiad i drafod unrhyw gwyn gyda'r Pennaeth. Teimlir ei bod yn bwysig i rieni deimlo yn gyffyrddus i ddod i'r ysgol i fynegi barn neu bryder, boed yn fawr neu fach, a thrafod hefo'r Pennaeth gan sefydlu ffordd gytunedig o ddatrys y sefyllfa. Amcanir at gael 'drws agored' yn yr ysgol bob amser.

## COMPLAINTS PROCEDURE

- The Local Education Authority has a procedure to consider complaints concerning the way schools' Governing Bodies and the Education Authorities act in relation to the schools curriculum and other related matters.
- This procedure is outlined in a document in Welsh and English, which is available at the school. A copy will be provided as required to any parent seeking to make a complaint .
- The school has a complaints policy .It is emphasised, however, that many complaints can be dealt with quickly and effectively by informal consideration based on discussions with the Headteacher.
- This is the first reasonable step and the Governing Body would expect that this step would have been completed before presenting the complaint formally in exceptional cases.
- An appointment can be made to discuss any complaint with the Headteacher by contacting the school.
- It is considered important that parents feel comfortable to come into the school to state an opinion or anxiety, be it big or small, and to discuss it with the Headteacher, so as to establish a way forward in solving the situation. It is the aim of the school to have an 'open door' for parents at all times.

## • CYSWLLT Â'R CARTREF

- Ni all yr ysgol lwyddo heb gefnogaeth y rhieni.
- Anogir chwi i ymddiddori yn addysg eich plentyn a bod yn gefn i'r ysgol yn ei gwaith ac yn ei gweithgareddau cyhoeddus.
- Dylai rhieni roi cefnogaeth efo prydlondeb, presenoldeb, ymddygiad, gwaith cartref a darllen.
- “Cyfeillion Cybi y gymdeithas rieni sydd yn cynnal gweithgareddau fel ffair Nadolig, ffair Haf, Bags 2 Schools ag agi yn ystod y flwyddyn i godi arian ar gyfer y gronfa ysgol.

## HOME AND SCHOOL CONTACT

- The school cannot succeed without the support of parents.
- We urge you to take an interest in your children's education and to support the school in its work and its public activities
- Parent support with punctuality, attendance, behaviour, homework and reading is essential
- The parent association is "Cyfeillion Cybi", and regular activities are held throughout the year, like the Christmas Fair, the Summer fair, Bags 2 schools to raise money for the school funds.

## DATA PRESENOLDEB

Mae pob absenoldeb yn rhai wedi eu hawdurdodi.  
Roedd presenoldeb ysgol gyfan yn 97.3% yn 2017

## ATTENDANCE DATA

All absences are authorised absences.  
Overall school attendance was 97.3% in 2017

## DATA CANLYNIADAU 2018

### Cyfnod Sylfaen

- 100% o ddisgyblion yn cael D5+ mewn rhif
- 85% o ddisgyblion yn cael D5+ mewn datblygiad personol
- 71% o ddisgyblion yn cael D5+ mewn iaith
- 

### Cyfnod allweddol 2

- 100% o ddisgyblion wedi cael L4+ ym mhob pwnc craidd
- 66% o ddisgyblion wedi cael L5+ ym mhob pwnc craidd

## PERFORMANCE DATA 2018

### Foundation Phase

- 100% of pupils gain D5+ in numeracy
- 85% of pupils gain D5+ in personal development
- 71% of pupils gain D5+ in literacy

### Key Stage 2

- 100% of pupils gained L4+ in all 4 core subjects
- 66% o ddisgyblion wedi cael L5+ in all 4 core subjects



Amser i ddysgu.....

Time to learn.....